PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 50 | Rhagfyr 11, 2025 | 50c.

## Glenys Jones

Trist iawn oedd clywed yn ddiweddar am farwolaeth y Parchg Glenys Jones, Pwllheli. Bu Glenys yn weinidog ffyddlon i'r Arglwydd Iesu ym Mhenlan, Pwllheli er 2014 a Soar, Nefyn er 2016. Bydd hiraeth mawr ar ei hôl yn yr ardal a thu hwnt. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

# Oedfa ddathlu ar yr Allt-wen

Yn oedfa dathlu 60 mlynedd o weinidogaeth y Parchg Gareth Morgan Jones, a 25 mlynedd gyda ni ar yr Allt-wen, croesawyd pawb yn gynnes iawn gan Delma James, ysgrifenyddes yr eglwys a diolchodd ymlaen llaw i bawb a fyddai'n cymryd rhan. Diolchodd i aelodau'r Allt-wen a Soar-Maesyrhaf; Huw Rees yr organydd a Rowland Lanchbury wrth yr offer technegol. Diolchodd i ddau o gyfeillion agosaf Mr Jones, sef y Parchg Dewi Myrddin Hughes a oedd hefyd yn dathlu 60 mlynedd yn y weinidogaeth, a'r Parchg Hywel Wyn Richards ac i'r Parchg Gary Green, ficer Eglwys San Pedr, Pontardawe a oedd wedi bod yn gefnogol iawn i Mr Jones ar hyd y blynyddoedd. Diolchodd hefyd i Ann Eleri Davies, a oedd yn cynrychioli Cyfundeb Gorllewin Morgannwg yn absenoldeb y Parchg Rhys Locke a Dr Dai Lloyd. Hefyd croesawyd y Parchg Owain Llŷr Evans, gweinidog eglwys Minny Street, Caerdydd a Llywydd Undeb yr Annibynwyr, sydd hefyd yn gyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Ystalyfera. Yr un oedd y diolch i'r unawdydd Mari Morgan Rees, cyfnither Mr Jones. Hi oedd gyda'r cyntaf i ennill Cystadleuaeth Towyn Roberts yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a hefyd gwobr arbennig Côr Orffiws Treforys. Canodd Mari yn oedfa sefydlu Mr Jones ar yr Allt-wen chwarter canrif yn ôl. Gwahoddwyd pawb i'r festri ar ôl yr oedfa am luniaeth a baratowyd gan y chwiorydd a'r cyfle i gymdeithasu.



### Oedfa o ddathlu

Yn ystod yr oedfa cyflwynwyd emynau gan Nia Johns a Meryl Phipps (Soar-Maesyrhaf) ac Anne Richards a Huw George (Yr Allt-wen). Darllenodd y Parchg Dewi Myrddin Hughes, Jeremeia Pennod 1:4-10 ac Ann Eleri Davies Corinthiaid 1:26-31 a 2:1-2. Offrymwyd y weddi gan y Parchg Hywel Wyn Richards.

### Neges amserol

Cawsom neges arbennig o berthnasol ar gyfer y dathlu gan y Parchg Owain Llŷr Evans. Y testun oedd Philipiaid 4:8, geiriau Paul i'r Eglwys yn Philipi: 'Bellach gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn.'

Gwerthfawrogwyd canu Mari Morgan Rees o'r gân "Anfonaf Angel " yn fawr iawn.

*parhad ar dudalen 2*

# Madagascar a Phen-rhys



Gwahoddwyd yr enwadau sy'n cynnal eglwys Llanfair ym Mhen-rhys i gwrdd yno ar ben y mynydd er mwyn rhoi croeso i lywydd FJKM (yr Eglwys Bresbyteraidd ym Madagascar) a oedd draw yn y wlad hon ar gyfer cynhadledd Ysgrifenyddion Cyffredinol CWM a gynhaliwyd yn Great Missenden eleni. Y mae'r Parchg Zaka Hary Masy yn newydd i'r swydd bwysig hon ac mae wedi profi ei allu, nid yn unig fel pregethwr yr efengyl allan yn y wlad ond hefyd fel rhywun sy'n medru cynnig arweiniad a bod o gymorth adeiladol yn y cyfnod gwleidyddol cythryblus diweddar ym Madagascar. Rhoddodd y Parchg Zaka adroddiad byw i bawb o fywyd ym Madagascar heddiw.

Cafodd y Parchg Zaka ei groesawu'n gynnes i gymuned Pen-rhys a soniwyd am hanes y cenhadon ac am y berthynas hyfryd a rhagweithiol fu rhwng pobl Pen-rhys a Madagascar. Dros y blynyddoedd diweddar daeth pobl ifanc o Fadagascar draw i weithio yng nghymuned Pen-rhys gan gyfoethogi bywyd yno. Mae'n ddymuniad gan bawb i'r berthynas hon gael ei hadfywio a'i chryfhau.

# Oedfa ddathlu ar yr Allt-wen – parhad

**Teyrnged**

Yna siaradodd Nest Davies ar ran yr Allt-wen.

'Gwaith dymunol ydy cynrychioli Eglwys yr Allt-wen ar yr achlysur nodedig hwn sy'n dathlu trigain mlynedd o weinidogaeth y Parchg Gareth Morgan Jones, a chwarter canrif gyda ni. Magwyd ef yn ardal Rhydlewis, Ceredigion, ac fe'i haddysgwyd yn ysgol gynradd Rhydlewis ac ysgol ramadeg Llandysul. Codwyd i'r weinidogaeth yn eglwys annibynnol Hawen, a'i hyfforddi yng Ngholeg Coffa'r Annibynwyr, Abertawe a Dr Pennar Davies yn brifathro yno. Cafodd ei ordeinio yn eglwysi Brithdir, Rhydymain a Tabor, Sir Feirionnydd yn 1965, a phriodi Jill, sydd yn wreiddiol o Gorslas y flwyddyn ddilynol. Symud yn 1969 i Seilo, Llangeler a Hermon, Cynwyl a threulio wyth mlynedd yno. Yno ganwyd y plant Endaf, Siân a Rhian. Daeth galwad yn 1977 i'r Tabernacl Pontardawe a gofal hefyd am Bethesda, Ynysmeudwy. Yn 1985 ymunodd â Soar-Maesyrhaf, Castell-nedd ac yn 2000 ymunodd â ninnau ar yr Allt-wen. Bu yn weinidog ym Methania, y Tymbl o 2011-2020. Am ddeng mlynedd ar hugain bu'n gaplan ysbytai Treforys, Castell-nedd Port Talbot, Gellinudd, Tonna a'r Cimla a mawr oedd gwerthfawrogiad y cleifion am ei ymweliadau. Bu hefyd yn ymweld yn gyson â chartrefi preswyl Danybryn, Cwm Cartref, Tanyrallt a Llwynallt. Hefyd ymwelodd ag ysgolion y cylch, sef ysgol gyfun Ystalyfera, ysgol gynradd yr Allt-wen, Ysgol Gymraeg Castell-nedd ac Ysgol Gymraeg Pontardawe lle bu'n Gadeirydd y Llywodraethwyr am gyfnod.'

**Gareth Richards**

*(Bydd ail ran yr adroddiad hwn yn rhifyn nesaf y Tyst)*

# Cerdded 100 milltir i Gymorth Cristnogol

Yn ystod mis Hydref eleni (2025) bûm yn cerdded 100 milltir i godi arian tuag at elusen Cymorth Cristnogol a hynny ym mlwyddyn dathlu pen-blwydd y mudiad yn 80 oed. Cefais fy noddi am gerdded gan ffrindiau a chyfeillion eglwysi Rhydaman, gan godi'r arian yn enw Pwyllgor Cymorth Cristnogol Rhydaman a'r Cylch. Llwyddwyd i godi'r swm o £1,172.50, swm teilwng o gofio fod dros £2,500 wedi ei godi gan eglwysi Rhydaman a'r cylch adeg Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai. I godi'r swm ychwanegol ar gyfer yr elusen, anrhydeddais ddymuniad doeth a chall y pwyllgor lleol i gerdded yn yr hydref.

**Y Dwyrain Canol**

Bydd yr arian a godwyd trwy gael fy noddi i gerdded y 100 milltir yn mynd at apêl ddyngarol y Dwyrain Canol lle mae Cymorth Cristnogol yn gweithio i helpu Palesteiniaid yn Gaza ac yn y Llain Orllewinol, Dwyrain Jerwsalem a Phalesteiniaid sydd wedi ffoi i wlad Lebanon. Mawr obeithiwn y bydd ein cyfraniad yn help i leddfu eu dioddefaint a'u cynorthwyo yn eu hangen mawr.

**O amgylch Rhydaman**

I ddathlu codi'r arian, ar ddydd Llun 17 Tachwedd, daeth Llinos Roberts, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru atom i Rydaman. Cafodd grŵp o dan arweiniad y Parchg Ganon John Gravell gyfle i gerdded o amgylch Rhydaman yn y prynhawn, gan fwynhau tywydd braf yng nghanol yr holl law diweddar, ac yn yr hwyr daeth cynrychiolwyr yr eglwysi ynghyd i neuadd Gellimanwydd i fwynhau lluniaeth ysgafn a chael cyfle i wrando ar Llinos yn ein hannerch. A buwyd yn gwerthu cardiau Nadolig Cymorth Cristnogol yn ystod yr hwyr.

**Rhodiana**

Gofynnwyd i mi gan Llinos i rannu rhywfaint am y teithiau cerdded ac am fy nheimladau ynghylch y cerdded ac am unrhyw heriau a ddaeth yn sgil hynny. Nawr, doedd dim yn anodd ynglŷn â cherdded 100 milltir, o gymharu dyweder â rhedeg marathon neu ddringo tri chopa mewn diwrnod, ond roedd eisiau tipyn o ddisgyblaeth a chryn ewyllys i gerdded 100 milltir, yn enwedig i berson dros ei 60 oed! Yn ychwanegol i gerdded llwybrau'r arfordir yn y gorllewin a cherdded y llwybr ar hyd afon Tywi o Abergwili i Nantgaredig, cerddais lwybr lleol ar hyd ffyrdd bach y wlad o gwmpas Y Tymbl un ar ddeg o weithiau, gyda'r teithiau hynny yn cymryd dwy awr o amser, a hyd yn oed mwy na hynny gan gyfrif yr amser i orffwys wedi pob taith. Mwynheais gerdded yn yr awyr agored a chael gweld golygfeydd godidog. Rwy'n siŵr fod y cerdded yn help i ddyn fod yn fwy heini ac i gadw lefelau siwgr y corff i lawr! Yn sicr rwy'n teimlo yn fodlon iawn ac yn hapusach fy ysbryd wedi'r cerdded. 'Y mae i ymarfer y corff beth gwerth' meddai Paul yn 1 Timotheus 4:8 ac yn sicr mae angen dyfalbarhad i ddal ati (1 Corinthiaid 9:25-26).

Pa ffordd well felly i wneud tamaid o ymarfer corff a chael cydweithrediad a chefnogaeth ffrindiau a chyd-Gristnogion i godi arian at achos da na cherdded 100 milltir? Hwyrach yr hoffech roi tro arni?



**Emyr Gwyn Evans**



Yr Adran Gydenwadol

RHAGFYR 11 2025 RHIF 250

# Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

## Dim gwely na chrud ... pan fyddwch chi'n ffoi rhag trais

'Cyn gynted ag y cafodd y plentyn hwn ei eni, fe wnaethon ni ffoi. Y cyfan mae'n ei wybod yw byd lle mae bomiau'n disgyn o'r awyr.'

Pan ysgubodd gwrthdaro arfog drwy gymuned Chance yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (DRC), gwelodd ei siop yn cael ei hysbeilio a'i chymydog yn cael ei threisio. Gan gydio yn ei baban newydd-anedig a chasglu ei phlant eraill ati, ffodd Chance ar droed, gan gario'r hyn a allai. Wrth i awyrennau ymladd sgrechian uwchben ac i fomiau ddisgyn o amgylch y teulu, teimlai Chance glwyf ei thoriad Cesaraidd diweddar yn agor.

Daeth Chance ddewr o hyd i gymorth meddygol a diogelwch cymharol i'w phlant yng Ngwersyll Katashola ar gyfer pobl wedi'u dadleoli. Ond nawr mewn lloches dros dro, does ganddi ddim byd o werth ac mae'n ofni bod ei gŵr wedi marw. Mae plant Chance yn llwglyd ac mewn perygl difrifol o ddiffyg maeth a malaria. Meddai wrthym: 'Yma yn y gwersyll, mae pobl angen bwyd, dillad, caniau dŵr, sosbenni, blancedi a matresi. Mae'r bywyd rydw i'n ei fyw gyda'r baban hwn yn boenus iawn. Mae hyd yn oed dod o hyd i sebon i'w olchi, a golchi'i ddillad, mor anodd.'

Stori gyfredol Chance sydd dan sylw yn ein Hapêl Adfent a Nadolig. Yr argyfwng dyngarol yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo yw un o argyfyngau newyn byd-eang mwyaf ein hoes, gyda dros 27 miliwn o bobl angen bwyd – hynny yw, naw gwaith poblogaeth Cymru. Diffyg maeth yw achos sylfaenol bron i hanner yr holl farwolaethau ymysg plant dan bump oed.



Llun: Esther Nsapu

Mae ECC-MERU (sef Eglwysi Crist yn y Congo – Gweinidogaeth dros Ffoaduriaid ac Argyfyngau) yn un o bartneriaid dibynadwy Cymorth Cristnogol yn y wlad sydd yn cynnal gobaith i deuluoedd fel un Chance.

Trwy'r dull effeithiol o gynnig grantiau arian parod i'r rhai sydd fwyaf angen cymorth, mae mamau yn medru prynu bwyd maethlon, meddyginiaethau hanfodol a chynhyrchion hylendid angenrheidiol i warchod rhag clefydau marwol fel colera. Golyga hefyd y gellir ariannu llochesi brys i deuluoedd mewn argyfwng, yn ogystal â rhoi dillad gwely a blancedi clyd i gysuro plant a babanod sydd wedi dioddef trawma. Ac mae eu rhaglen adeiladu heddwch yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais, gan helpu cymunedau i symud y tu hwnt i oroesi ac i adferiad.

Meddai Obed Buhendwa, Uwch-swyddog Rhaglen Cymorth Cristnogol yn Bukavu, Talaith De Kivu: 'Rydw i'n unigolyn sy'n credu, ac rwy'n credu bod gobaith yn ein cadw ni'n fyw. Pan fydd rhywun yn credu, mae'n cael egni newydd a safbwyntiau newydd, er gwaethaf ei ddioddefaint. Rwy'n dal at y gobaith am Gongo ffyniannus – lle da i fyw. Congo lle na fyddwn yn adrodd mwyach am filiynau o bobl yn cael eu lladd, miliynau o fenywod yn cael eu treisio, a miliynau o blant yn marw o newyn.'

Ers bron i dri degawd, mae'r gwrthdaro yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo wedi hawlio tua chwe miliwn o fywydau. Eto i gyd, mae'r drasiedi hon wedi datblygu'n bennaf heb dderbyn unrhyw sylw. Mae'n argyfwng sydd wedi'i anghofio a dim ond 2.5% o gyfryngau'r Deyrnas Unedig sy'n rhoi sylw iddo.

Byddwn yn aml yn dweud mai pwrpas craidd Cymorth Cristnogol yw amlygu sgandal tlodi. Mae'r ymgyrch Nadolig felly'n galw arnom i weddïo dros y gwaith angenrheidiol hwn, a chyfrannu ato, ond hefyd i adleisio storïau teuluoedd fel un Chance drwy ysgrifennu at stafelloedd newyddion byd-eang.

[https://caid.org.uk/SilentNight](https://caid.org.uk/SilentNight)

O.N. Pob prynhawn Sadwrn yn ystod yr Adfent, rydym yn ychwanegu myfyrdod a gweddi ar ein tudalen Facebook Cymorth Cristnogol Cymru. Fe garwn estyn gwahoddiad i chi weddïo gyda ni.



Llun: Esther Nsapu

*Mari McNeill*
*Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru*

# Gwasanaethau'r Nadolig – syniadau ac adnoddau















home for good




A ninnau bellach yng nghanol ein trefniadau Nadolig, cofiwch fod yna ddigon o adnoddau ar gael i gefnogi'r gwaith paratoi, wedi'u llunio gan nifer o fudiadau ac enwadau gwahanol. Mae'r Cyngor Ysgolion Sul, yn ôl yr arfer, wedi cywain yr adnoddau hyn i un man cyfleus, ac mae modd cael mynediad iddynt drwy glicio ar: http://cristnogaeth.cymru/nadolig/.

Mae yma adrannau helaeth sy'n cynnwys cannoedd o fyfyrdodau a gweddïau – adnoddau ar gyfer pob oed, a dweud y gwir – ac maent yno i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Mae adrannau ar gyfer yr Adfent, gwasanaeth Cristingl, drama'r Geni, gwasanaethau carolau, a digon o ddeunydd defosiynol ar gyfer gwasanaethau traddodiadol.

Rydym am dynnu eich sylw yn arbennig at yr adnoddau sydd i'w canfod yn yr adran Adnoddau Nadolig Diweddar. Yma rhestrir yr adnoddau rydym yn ymwybodol ohonynt a ymddangosodd yn gymharol ddiweddar.

### Adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol

Ceir adran hefyd yn cyfeirio ein sylw at adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol. Gweler yr hanes am eu hapêl newydd eleni ar dudalen 2 yn y rhifyn hwn o *Cenn@d*.

### Taflen garolau Gymraeg gan Embrace the Middle East

Mae gan elusen Embrace the Middle East daflen garolau ar gael sy'n rhad ac am ddim i'w lawrlwytho ac yn cynnwys 20 carol boblogaidd. Cliciwch yma i fynd i wefan Embrace the Middle East, lle mae modd lawrlwytho'r ffeil PDF.

Mae gan y Cyngor Ysgolion Sul nifer o adnoddau i deuluoedd hefyd dros gyfnod yr Adfent. Nodir rhai ohonynt isod:

### Jig-so ar gyfer cyfnod yr Adfent

Ydych chi'n chwilio am weithgaredd i'r teulu dros gyfnod yr Adfent, neu efallai'r rhywun sy'n mwynhau gwneud jig-sos? Mae'r jig-so Nadoligaidd yn cynnwys 1,000 o ddarnau, ac wedi ei gwblhau bydd yn portreadu golygfa'r geni gwyrthiol ym Methlehem dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl.

### Pecyn creu golygfa preseb y Nadolig Cyntaf

Mae'r pecyn hwn yn rhoi cyfle i chi adeiladu eich golygfa o'r preseb eich hun. Mae'n amser casglu eich deunyddiau a gadael i'r hwyl ddechrau! Y cyfan sydd ei angen arnoch yw bocs cardbord bach (mae bocs esgidiau yn gweithio'n dda), cerdyn maint A4 ar gyfer argraffu'r cymeriadau, offer crefft (tâp, siswrn, creonau, marcwyr, ac ati). Gallwch ddefnyddio'r pecyn Nadolig hwn gartref neu yn yr ysgol Sul / eglwys i helpu plant i ddeall a dathlu'r newyddion da fod Iesu Grist wedi'i eni i fod yn Waredwr y byd!

### Cardiau Adfent Lein Ddillad

Dyma galendr Adfent sy'n troi'n addurn Nadolig wrth iddo gael ei greu dros gyfnod yr Adfent tuag at ddydd Nadolig. Y cyfan fydd arnoch ei angen yw 8 darn o gerdyn maint A4, cortyn tua 3 metr o hyd a 24 o begiau dillad. Gellir addurno a lliwio'r cardiau, a thrafod yr adnod o dan sylw, cyn gosod y cardiau i fyny fesul diwrnod o 1 Rhagfyr tan ddydd Nadolig.

### Gwersi Ysgol Sul


Mewn cydweithrediad â Gweinidogaeth y Gwir Ffordd, mae tri phecyn o werslyfrau ysgol Sul hefyd ar gael yn yr adran yma ar y we i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Maent yn cynnwys detholiad o storïau, posau a gweithgareddau, ynghyd â ffilm Gymraeg newydd. Ceir digonedd o wersi eraill hefyd, ynghyd â ffilmiau, gwaith crefft a chomics i'w lawrlwytho.






## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 9 – Ymson Miriam

Yn saith oed, safwn yn amyneddgar ar lan yr afon. Roeddwn yn ddigon hen i gadw llygad barcud ar fy mrawd bach yn y fasged, ond heb fod yn ddigon aeddfed i ddeall mawredd y peth. Mam oedd wedi gwneud y fasged a'i dwylo'n crynu, ond fe deimlais innau'r awel yn cario'r ofn wrth ddynesu at yr afon. Gwyliais fy mam yn rhoi'r babi ar y dŵr, a chlywais lais yn sibrwd o'm mewn: "Gwylia. Aros. Gwna."

Ymhen hir a hwyr, daeth merch Pharo yno. Meddyliais y byddai'n cael sioc o weld y babi, ond gwelais ei llygaid yn meddalu. Cododd y babi o'r brwyn fel pe bai'n gweld addewid yn cael ei wireddu. Yna, clywais y llais eto, yn fy siarsio: "Gwna". Ac yn sydyn, sefais yn dalsyth a chamu allan o'm cuddfan. Awgrymais y byddai'n dda cael rhywun i ofalu am y babi, a llamodd fy nghalon wrth ei chlywed yn cydsynio. Roeddwn yn falch o'm gweithred bwysig.

Aeth y blynyddoedd heibio. Tyfodd Aaron a minnau heb gwmni ein brawd. Roedd cysgod cleddyf yr Aifft drosom, ond byddem yn rhannu straeon ein cyn-dadau ac yn arddel yr addewid yn ein cof. Bu raid i Moses ddianc a diflannodd ein gobaith, ond dychwelodd; clywais fflam ein gwaredigaeth yng ngwres ei eiriau ac roedd ôl Duw ar ei ddwylo cryf.

Daeth sawl pla, un ar ôl y llall. Ffrydiodd dŵr afon Neil fel gwaedlif, ac roedd cysgodion cyrff y meirw'n tristáu'r ffenestri ar bob tu. Rhaid oedd dianc o afael gorthrwm yr Eifftiaid. Anghofia i fyth mo'r Môr Coch yn rhwygo'n ddau, a'r tonnau'n codi fel dau fur anferth, cyn dymchwel i lawr dros yr Eifftiaid. Fe'n hachubwyd ni a chawsom gerdded drwy'r tonnau'n ddianaf. Gwelais fawredd Duw. Erbyn inni gyrraedd yr ochr draw, gwibiai fy meddwl cymaint fel na allwn yngan gair! Heb feddwl a heb drefnu o flaen llaw, gafaelais yn fy nhympan a dechrau canu. Codai nodau'r alaw i'r entrychion a daeth y merched i gyd-ddawnsio â mi.

Aethom yn ein blaenau. Profais orthrymder meddwl wrth wynebu newyn ac ofn yn yr anialwch. Aeth pethau'n drech na mi, a fedrwn i ddim ddygymod ag awdurdod fy mrawd. Mae'n wir fod Moses yn wylaidd, ond eto roedd wedi ei ddewis ac roedd y gwirionedd hwnnw'n cynhyrfu f'ysbryd. Aeth Aaron a minnau ato â'n hamheuon. Doeddwn i ddim yn deall ar y pryd mai balchder gwenwynig a'm cymhellodd i deimlo dig tuag at fy mrawd. Dyna pryd y dechreuais ddioddef o gyflwr croen enbyd. Allwn i ddim dioddef y cywilydd, ac enciliais. Bu rhaid i bawb aros amdanaf.

Taerineb Moses achubodd fy ngham; fe weddïodd ar Dduw i'm gwaredu o grafangau fy nghyflwr. Drwy wyleidd-dra Moses ac amynedd y bobl, sylweddolais beth oedd gras grymus. Ymhen saith niwrnod roedd fy nghroen wedi clirio. Dychwelais i gwmni fy nheulu a'm câr. Oedd, roedd fy nghamau'n drymach, ond dan bwysau dealltwriaeth yn fwy na dim arall. Bûm yn broffwydes, yn gantores, yn chwaer dda ac yn chwaer wael, ond bûm hefyd yn ddibynnol ar y Duw byw sy'n codi'r gweiniaid ac yn cywiro'r rhai balch eu calon.

Mae fy stori i wedi'i gweu o frwyn gwendid ac o donnau llawenydd yn ogystal. Oherwydd mae Duw yn fwy na'n camgymeriadau. Mae ei fwriad yn llifo fel dŵr yr afon a'r Môr Coch dros y rhai sy'n fodlon gwylio, aros, a gwneud.

**Holi**

- Dangosodd Miriam ddewrder ger yr afon. Sut allwn ni ymarfer ein ffydd yn ddewr heddiw? Oes llais yn ein cymell ninnau: 'Gwna'?
- Mae bywyd Miriam yn cynnwys cyfnodau o arwain a chyfnodau o fethu. Ydych chi wedi cael profiad o gael eich hannog i ddal ati drwy wahanol gyfnodau?
- Dengys Miriam ei bod yn ymrafael ag eiddgedd a hunan-falchder (Numeri 12). Sut allwn ni amddiffyn ein calonnau rhag hualau cystadleuaeth rhyngom a'n gilydd?
- Drwy Miriam, profodd y bobl rym cerddoriaeth, rhythm a dawns fel dulliau o foli Duw. Allwn ni wneud defnydd amgen o'r elfennau hyn mewn ffyrdd newydd?
- Arhosodd ei chymuned i Miriam wella o'i chyflwr. Oes ffyrdd penodol y gall yr eglwys leol gynnig cefnogaeth i rai yn y gymuned sy'n mynd i drafferthion?

**Gweddi**

Boed inni wybod pryd i wylio, i aros, a phryd i weithredu. A phan ddaw'r amser i weithredu, rho inni'r dewrder i wneud hynny! Boed inni ddal ati drwy bob mathau o brofiadau. A phan fyddwn yn methu, cymell ni i godi ar ein traed fel y gallwn ganu a dawnsio eto! Boed inni beidio â disgyn i dwll cymharu ein hunain ag eraill. A phan allwn ni, gwna ni'n bobl sy'n rhoi'n ymroddgar mewn gwyleidd-dra iach. Amen.

*Siân Meinir*

## Tanysgrifiadau Gair y Dydd 2026 – deunydd defosiwn dyddiol

Mae angen tanysgrifwyr newydd arnom am sawl reswm … mae nifer y tanysgrifwyr yn lleihau, a'r mwyafrif yr ochr anghywir i 70 oed!

Os ydych chi'n chwilio am anrheg Nadolig i rywun neu gopi personol, wel, mae Gair y Dydd 2026, gyda chopi bob chwarter am ddim ond £10, yn fargen!

Bydd croeso i bawb ysgrifennu siec am £10 i 'Gair y Dydd' neu dalu £10 ar-lein:

Pwyllgor Darlleniadau Beiblaidd
10674443
40-08-09

Pob hwyl a bendith

*Gwilym Dafydd*
*Trysorydd*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 14 Rhagfyr, am 7:30yh – Nadolig y Gymuned**
Bydd Lowri Morgan yn ymweld â Dre-fach, Cwm Gwendraeth, i ddysgu sut mae un capel yn agor ei ddrysau i'r gymuned – a'u hannog i fod yn greadigol wrth baratoi at y Nadolig. A chawn fwynhau gwledd o garolau o addoldai ledled Cymru.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 14 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Bryn Williams, Pwllheli

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 14 Rhagfyr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Mererid Mair, Caernarfon


(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Myfyrdod nodion Seion

Pwysleisiwyd gennyf lawer tro bod dau beth yn nodweddu eglwys fyw; sicrwydd, cred a chymdeithas gynnes yn yr Arglwydd. Mae clywed tystiolaeth bersonol Cristnogion didwyll i realiti a grym eu ffydd heddiw yn gyfrwng bendith ac atgyfnerthiad ffydd i ni'n bersonol.




### *Barnabas Aid*

Hoffwn rannu hanesyn â chi o rifyn cyfredol cylchgrawn *Barnabas Aid*. Roedd gwraig ifanc o dalaith Plateau yn Nigeria ar fin rhoi genedigaeth i faban bach pan ymosododd eithafwyr Islamaidd ar ei phentref. Ei henw yw Rejoice ac mae'n un o filoedd o Gristnogion sydd wedi eu heffeithio yn arw gan drais a chreulondeb eithafwyr Islam yn Nigeria. Yn niffyg popeth arall fe wnaeth mam yng nghyfraith Rejoice ei harwain i'r unig loches medrai ddod o hyd iddi yng ngweddillion adeilad wedi ei ddinistrio gan yr ymosodwyr. Safodd milwr o Nigeria ar bwys Rejoice gan geisio cadw'r ymosodwyr draw a hithau yn rhoi genedigaeth i ferch fach yng nghanol sŵn y bwledi. Ar waethaf ei hofn a'r trawma a ddaeth i'w rhan datgelodd ei ffydd ddi-ildio yn yr Arglwydd Iesu Grist drwy'r enw a roes i'w merch fach – Emmanuella, Duw gyda ni.

Mae stori Rejoice yn datgelu'r gobaith mae ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist yn dal eu gafael ynddo yng nghanol dioddefaint ac erledigaeth – y gobaith a'r sicrwydd bod Duw gyda'i bobl drwy bob dim sy'n rhaid iddynt ei wynebu. Byddai Rejoice am dystio gyda Paul, 'Dw i'n gallu wynebu pob sefyllfa am fod y Meseia yn rhoi'r nerth i mi wneud hynny' (Philipiaid 4:13).

### Jeremiah Azu

Diolch i Jeremiah Azu, y Cymro sydd wedi rhedeg 100 metr mewn llai na deg eiliad am dystio i'w ffydd yn Nuw. Mae yntau wedi gorfod wynebu nifer o frwydrau anodd ac ar ei dudalen Facebook mae e'n cyflwyno'i hunan wrth ddefnyddio geiriau Paul, 'Dw i'n gallu wynebu pob sefyllfa am fod y Meseia yn rhoi'r nerth i mi wneud hynny' (Philipiaid 4:13). Mae Jeremiah Azu a'i deulu yn ffyddlon yn y capel yn Rhymni yng Nghaerdydd bob Sul, ac ef a'i deulu yn fynych yn arwain yr addoliad. Tystia i bwysigrwydd ei ffydd bersonol ac yn yr un modd i fendith a phwysigrwydd perthyn i gymdeithas yr eglwys lle mae ei ffydd yn cael ei feithrin a'i fwydo. Dywed awdur y Llythyr at yr Hebreaid wrthym, 'Gadewch i ni feddwl am ffyrdd i annog ein gilydd i ddangos cariad a gwneud daioni. Mae'n bwysig ein bod yn dal ati i gyfarfod â'n gilydd' (10; 24,25).

### Cymdeithas arbennig

Cawsom ein creu gyda'r angen am gyfeillgarwch iach ag eraill. Dywed ein Creawdwr wrthym yn Genesis, 'Nid da bod dyn ar ei ben ei hun' (2:18). 'God wired each of us with a desire to know and be known, to love and be loved, to serve and be served' (Bill Hybels). Pan ddaeth Crist i'r byd sefydlodd gymdeithas o bobl sy'n cyffesu ffydd ynddo fel eu Harglwydd a'u Gwaredwr sef yr eglwys, teulu'r ffydd. Mae gan yr eglwys gyfrifoldeb i ddiwallu angen dynion a merched am gyfeillgarwch a gofal. Yn yr eglwys leol lle mae Iesu'n ben ac yn cael ei anrhydeddu y mae *agape* – cariad sy'n aberthu er mwyn eraill – ar waith a phan ddigwydd hynny deuwn yn wir yn frodyr ac yn chwiorydd yng Nghrist. Bwriadwyd i'r eglwys fod yn gymdeithas o bobl sy'n cerdded mewn cydymdeimlad ac mewn tosturi â'i gilydd drwy broblemau a phoenau bywyd. Nid oes yna eglwys berffaith ond nid oes dim yn rhagori ar eglwys lle mae dynion a merched sydd wedi cael profiad o ras a chariad Duw. Mae angen cymdeithas arnom sy'n cael ei hysbrydoli gan Grist ac sy'n hyrwyddo undod a chariad. Ein galwad ni yw sicrhau ein bod ni mewn llawenydd yn hyrwyddo undod a chariad ynghyd â chymdeithas gynnes oddi mewn i deulu'r ffydd.

### Beth a wnaf?

Wrth rannu hanes ei dröedigaeth dywed Saul o Darsus ei fod wedi gofyn i'r Crist byw, 'Beth a wnaf, Arglwydd?' (Actau 22;10). Dyna gwestiwn sy'n rhaid i ni yn bersonol ei ofyn i Dduw yn wyneb yr angen i sicrhau cymdeithas gynnes yn yr Arglwydd yn Seion. Roedd gan Dduw waith ar gyfer Saul ac mae ganddo waith ar ein cyfer ni hefyd. Mae ef am ein gwasanaeth yn eglwys Seion – 'Yr eglwys hon yw ei gorff ef' (Effesiaid 1:23).

'Ni yw ei dystion, awn ymlaen â'i waith.' (O. M. Lloyd)

Mae stori eglwys Seion ond i barhau wrth i ddynion a merched a phlant, o dan weinidogaeth y Gair ac yn arweiniad yr Ysbryd Glân, agor eu calonnau i Grist a chysegru eu doniau yn llawen yn ei wasanaeth. 'Yr eglwys hon (eglwys Seion) yw ei gorff ef.' Gweddïwn gydag Azariah Shadrach, gweinidog cyntaf eglwys Seion:

> Enynna 'nghalon, Iesu cu,
> yn dân o gariad atat ti,
> a gwna fi'n wresog yn dy waith
> tra byddaf yma ar fy nhaith.

Boed bendith Duw arnom.

**Andrew Lenny**



# Golygyddol

## I gadw gŵyl addas

Pam nad ydym ni yn eu canu trwy'r flwyddyn? Dyma'r cwestiwn ddaw i fy meddwl i yn aml ar gychwyn tymor yr Adfent. Sôn yr wyf am ein carolau Nadolig. I mi maent yn un o'r cyfryngau mwyaf effeithiol i ennyn mawl a rhyfeddod yn ein calonnau tuag at Dduw a gwefredd digyffelyb newyddion da'r Efengyl. Yn y carolau hyn y mae dau wirionedd sy'n cael eu serio ar ein calonnau, sef gwyrth yr ymgnawdoliad a'r grym gostyngedig a ddangosir ym mherson Iesu. Hoffwn sôn yma am y ddau ohonynt.



### 1. Gwyrth yr ymgnawdoliad

*Ceir cyfeiriadau at yr ymgnawdoliad yn Luc 2:10-12, Ioan 1:18, Philipiaid 2:1-11, Colosiaid, 1:15-23 a.y.b.*

Mae William Williams, Pantycelyn yn mynegi'r peth fel hyn – a gallwn ei ddychmygu yn sefyll yn geg agored ond gyda thrydan yn ei draed wrth ystyried geni'r Meseia.

Ymhlith holl ryfeddodau'r nef,  
Hwn yw y mwyaf un,  
Gweld yr anfeidrol ddwyfol fod  
yn gwisgo natur dyn.

Mae'r gwirionedd a fynegir yn y pennill yn ein cyfareddu wrth sylweddoli fod Duw wedi dod yn berson o gig a gwaed mewn baban bach. Nid dyn da yn unig oedd Iesu? Nid proffwyd yn unig oedd Iesu? Nid dysgawdwr doeth yn unig oedd Iesu? Na, ef oedd Mab Duw, y Duw-ddyn. Mae'r gwirionedd hwn yn benffrwydrol ac yn dangos i ni pam fod Iesu mor bwysig yn hanes y greadigaeth a dynoliaeth. O ganlyniad nid person i'w anwybyddu yw Iesu, er bod llawer yn ceisio gwneud hynny. Ac mae fflyd o emynau a charolau addolgar yn mynegi'r wyrth 'fod duwdod wedi dod mewn baban i'n byd.' Hefyd mae nifer o feirdd wedi mynegi hyn, yn drawiadol gofiadwy, fel Eirian Davies,

**Gwyrth y geni; Duw'n gwisgo cnawd:**  
Ni wyddom am ddim rhyfeddach, –  
Crëwr  
Yn crio mewn cadach,  
Yn Faban heb ei wannach,  
Duw yn y byd fel Dyn Bach.

**J. Eirian Davies**

Ac mae'n rhaid i bawb ohonom oedi ennyd wrth fyfyrio ar y gwirionedd cwbl syfrdanol hwn. 'Crëwr yn crio mewn cadach'. Daeth Ef er mwyn cymodi'r byd a Duw a phobl â'i gilydd gan wyrdroi safonau'r byd materol a choncro teyrnas y tywyllwch.

### 2. Grym gostyngedig

Ond ynghlwm wrth y gwirionedd cyntaf y mae ail wirionedd yn cael ei amlygu sef y modd y mae Duw yn gweithredu mewn byd toredig, anghenus, anghyfiawn a threisgar. Y mae Duw yn defnyddio 'grym gostyngedig' er mwyn dod â'i deyrnas a'i iachawdwriaeth, a thrwy hynny y mae'n herio awdurdodau, grymusterau ac agweddau syrthiedig y byd hwn. Gadewch i mi esbonio hyn ychydig ymhellach. Dewisodd Duw ddatguddio ei fawredd, ei natur, ei ewyllys, ei gariad, ei iachawdwriaeth a nodweddion ei deyrnas trwy faban bach bregus oedd yn gwbl ddibynnol ar eraill. Gwirionedd a ymddengys yn gwbl chwerthinllyd i'r byd di-Dduw. Do, fe dyfodd yr Iesu yn ddyn yn ei oed a'i amser, ond fe barhaodd i ddatguddio teyrnas Dduw yn yr un ffordd. Gwrthododd godi byddin. Gwrthododd ddefnyddio trais. Gwrthododd gydymffurfio â'r pwerus a'r cyfoethog. I'r gwrthwyneb, roedd yn caru pobl oedd yn ei gasáu, yn gweddïo dros y rhai oedd yn ei felltithio, yn uniaethu hefo'r tlawd a'r sâl a'r diamddiffyn. A bu farw yn aberthol ar groesbren arw ac atgyfodi er budd ei elynion.

Mae natur y newyddion da Cristnogol yn gwbl wahanol i natur teyrnasoedd y byd hwn. Ynddynt hwy fe welir anghyfiawnder, trachwant a hunanoldeb yn dod i'r brig ym mhob oes  A dyna pam mai Iesu yw'r person mwyaf arwyddocaol droediodd y ddaear hon erioed, dim ond ganddo ef y mae'r grym i newid pethau mewn gwirionedd.


O ia. Ac un peth arall y mae'r carolau hyn yn ein hannog i'w wneud yw credu a dilyn yr Iesu. Neu fel y canodd Rhys Prichard, 1579?-1644.

Gwahoddwch y tlodion  
a'r clwyfus a'r cleifion  
a'r gweiniaid a'r gweddwon  
â chroeso i'ch gwledd;  
o barch i'r Mesïas  
a'n dwg ni i'w deyrnas  
i gadw gŵyl addas heb ddiwedd.

Nadolig Llawen.

**Alun Tudur**

## Sis – athrawes cerdd a llên




Merch o ardal Llanbrynmair yn hen sir Drefaldwyn oedd Elizabeth Jane Griffiths. Wedi graddio ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth aeth yn athrawes ond ar ôl priodi'r Parchg Gerallt Jones, fel gwraig y gweinidog ac fel Mrs Gerallt Jones y byddai pobl yn ei hadnabod. Magodd bedwar o feibion bywiog sef Huw Ceredig, Dafydd Iwan, Arthur Morus ac Alun Ffred. Ond drwy'r cyfan bu'n ysgrifennu; erthyglau i gylchgronau ac ar gyfer y rhaglen radio Rhwng Gŵyl a Gwaith a chystadlu ac ennill mewn eisteddfodau fel Eisteddfod Powys ar y stori fer. A bu'n cadw dyddiadur achlysurol yn arbennig yn ystod y cyfnod o fagu'r bechgyn.

Ac yn y gyfrol *Sis,* sef yr enw y byddai ei chyfeillion yn ei galw, a olygwyd gan un o'r meibion, Alun Ffred, cawn gip ar waith y wraig annibynnol a diwylliedig hon a rhywfaint o'i hanes wrth fyw mewn gwahanol rannau o Gymru. Cawn sylwadau craff am y plant, bywyd teuluol ac am yr ardaloedd y bu'n byw ynddynt a chawn synhwyro'i rhwystredigaethau ar yr un pryd, gan gynnwys sylwadau digon deifiol ar fywyd eglwysig y dydd.

Mae'r elw o'r gwerthiant yn mynd tuag at Gymorth Cristnogol. Dylai copïau fod yn y siop llyfrau Cymraeg leol neu archebwch gopi trwy gysylltu ar e-bost â'r golygydd. affred49@gmail.com

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Derbyn aelodau



Llawenydd mawr i gynulleidfa capel y Priordy, Caerfyrddin yn yr oedfa deulu fore Sul, 2 Tachwedd oedd derbyn pump o bobl ifanc yn aelodau cyflawn o'r eglwys. Dymunwn bob bendith a daioni iddynt.

# Y Nadolig

Ar swynol ddydd Nadolig – y daeth Duw
Ar daith dyn colledig;
Ac yn dod, heb yr un dig –
O! Geidwad bendigedig.

**H. Llewelyn Morgan**



# Dydd Gweddi



Ceredigion oedd yn estyn croeso i Gynhadledd Undydd y De, er mwyn paratoi ar gyfer gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2026. Daeth cynrychiolaeth dda ryfeddol ynghyd i festri capel Bryngwenith, ger Henllan, Castellnewydd Emlyn ar ddydd Mercher 12 Tachwedd, 2025.

Croesawyd pawb gan weinidog capel Bryngwenith sef y Parchg Carys Ann a chymerwyd rhan gan unigolion yn cynrychioli eglwysi Ebeneser, Caerdydd; Graig, Castellnewydd Emlyn; Glynarthen; Peniel; ac ardal Llandysul, Tregaron a Llanbedr Pont Steffan.

Diolch i bawb am bob cefnogaeth. Hyderwn y bydd darllenwyr *Y Tyst* yn manteisio ar ddilyn y gwasanaeth ym mis Mawrth 2026. Yn sicr cewch fendith.

**Carys Ann**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*